# Cynllunio, rheoli a monitro gweithrediad a pherfformiad menter organig

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynllunio, rheoli a monitro gweithrediad a pherfformiad menter organig ac mae'n cynnwys ymagwedd system gyfan mewn lleoliad organig.

Er mwyn marchnata cynnyrch fel cynnyrch "organig", mae'n rhaid cael yr ardystiad perthnasol. Gall y broses o drosi i statws organig gymryd hyd at 36 mis ac mae'n rhaid dilyn y broses a nodir gan y corff rheoli organig priodol. At ddibenion y safon hon, cymerir bod statws organig wedi ei gyflawni.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer y rheiny sydd â chyfrifoldebau cynllunio a rheoli mewn menter organig fel anifeiliaid fferm, cnydau neu arddwriaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. diffinio amcanion a thargedau ar gyfer y fenter organig a chynllunio system gynhyrchu i gyflawni'r rhain
2. cadarnhau bod y cynllun yn creu cynnyrch sy'n bodloni ac yn ymateb i ofynion newidiol cwsmeriaid/y farchnad er mwyn cynyddu cyfleoedd
3. cael cyngor arbenigol lle bo angen
4. datblygu cynllun cynhyrchu ar gyfer y fenter organig yn unol â gofynion ardystio organig perthnasol
5. cadarnhau bod y cynllun yn ymgorffori'r ffordd y caiff arferion cynhyrchu eu rheoli er mwyn bodloni gofynion y corff rheoli organig
6. creu rhagolygon ffisegol ac ariannol ar gyfer y fenter organig yn seiliedig ar yr amcanion a'r targedau a ddiffiniwyd
7. creu gweithdrefnau a phrotocolau i reoli a monitro perfformiad y fenter organig
8. nodi a chadarnhau argaeledd yr adnoddau sy'n ofynnol i weithredu'r cynllun ar gyfer gweithrediad a pherfformiad menter organig
9. cyfathrebu'r cynllun i'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'i weithredu
10. cadarnhau bod y rheiny sy'n gweithredu'r cynllun wedi eu hyfforddi'n llawn yn egwyddorion cynhyrchu organig
11. cynllunio a rheoli gweithrediad y fenter yn unol â gofynion ardystiad organig perthnasol
12. sefydlu mesurau i gynnal y lefel ofynnol o hylendid a bioddiogelwch a chadarnhau eu bod wedi cael eu gweithredu
13. sefydlu mesurau ar gyfer ailgylchu neu waredu gwastraff ac is-gynnyrch, a chadarnhau eu bod wedi cael eu gweithredu

14. cadarnhau bod dulliau gwaith yn cynnal iechyd a diogelwch ac yn cyd-fynd â deddfwriaeth, codau ymarfer a gofynion sefydliadol perthnasol

15. cadarnhau bod y rheiny sydd yn gysylltiedig â gweithredu'r fenter organig yn defnyddio offer amddiffynnol personol (PPE) priodol

16. monitro cydymffurfio â chynlluniau sicrwydd ansawdd perthnasol a defnyddio'r wybodaeth hon i gynyddu cyfleoedd yn y farchnad

17. monitro a gwerthuso gweithrediad a pherfformiad y fenter organig yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod targedau acamcanion yn cael eu bodloni a gwneud newidiadau lle bo angen

18. cadarnhau bod cofnodion yn cael eu cadw a'u storio fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, codau ymarfer, ardystiad organig, gofynion sicrhau ansawdd a pholisïau sefydliadol perthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. egwyddorion cynhyrchu organig
2. y diffiniad a'r gofynion cyfreithiol perthnasol ar gyfer cynhyrchu organig a gofynion y corff rheoli organig
3. gofynion, manteision ac anfanteision cynhyrchu organig
4. amcanion a thargedau'r fenter organig
5. galw'r farchnad/cwsmeriaid am gynnyrch penodol mewn perthynas â swm, maint/cyfaint, ansawdd, manyleb, tymoroldeb a

   thueddiadau newidiol
6. manylion a diben cynlluniau sicrhau ansawdd perthnasol a'u dylanwad ar lwyddiant y fenter organig
7. ble i gael cyngor arbenigol
8. sut i gynllunio a rheoli gweithrediad a pherfformiad y fenter organig i fodloni amcanion a thargedau wedi eu diffinio
9. sut i bennu'r adnoddau dynol, ariannol, materol a chyfalaf sydd yn angenrheidiol i gyflawni'r cynllun ar gyfer gweithrediad a pherfformiad menter organig
10. pwysigrwydd ymagwedd system gyfan a chynnal y cydbwysedd a'r fioamrywiaeth naturiol a sut i gefnogi hyn
11. sut i ddarparu a chynnal cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt sydd o fudd
12. planhigion sydd o fudd a'u defnydd a'r ffordd y gellir rheoleiddio a rheoli chwyn, plâu a chlefydau yn unol â gofynion organig
13. mathau a chynnwys priddoedd a thechnegau rheoli pridd

14. defnyddio, cymhwyso a rheoli dŵr

15. y gofynion perthnasol ar gyfer amgylcheddau wedi eu rheoli

16. pwysigrwydd sicrhau a oes gan gyflenwyr statws organig

17. y cyfleoedd ar gyfer lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu

18. sut i greu rhagolygon a chyllidebau a sut i gyflwyno system reoli ffisegol ac ariannol effeithiol i asesu cydrannau perfformiad beirniadol o'r fenter organig

19. y dulliau o gyfathrebu cynlluniau a gweithdrefnau i'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'u gweithredu

20. y dulliau o gynnal hylendid a bioddiogelwch a'r rhesymau pam y mae hyn yn bwysig

21. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol ar gyfer trin, cludo, storio, ailgylchu a gwaredu gwastraff ac is-gynnyrch

22. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol, iechyd a diogelwch a hylendid bwyd, codau ymarfer a gofynion sefydliadol perthnasol

23. pwysigrwydd cadarnhau bod yr offer amddiffynnol personol (PPE) cywir yn cael ei ddefnyddio gan y rheiny sydd yn gweithio yn y fenter organig

24. yr angen am reolaeth ofalus a monitro rheolaidd ac adolygu perfformiad y fenter organig er mwyn sicrhau bod amcanion a thargedau'n cael eu bodloni

25. sut gall dylanwadau mewnol ac allanol effeithio ar berfformiad y fenter organig, fel newidiadau mewn prisiau yn deillio o amodau'r farchnad, a'r newidiadau y gall fod angen eu gwneud i'r cynllun

26. y gofynion ar gyfer adrodd a chofnodi a'r hyd y dylid cadw cofnodion

## Geirfa

**Technegau rheoli pridd:** e.e. palu/dim palu, defnyddio gwrtaith gwyrdd a gwyndonnydd datblygu ffrwythlondeb, tomwellt, maethynnau ategol, compost a gwrtaith

**Gall ffermio organig gynnwys:**

- osgoi gwrtaith a phlaladdwyr artiffisial
- cylchdroi cnydau a mathau eraill o amaethyddiaeth i gynnal ffrwythlondeb y pridd
- rheoli chwyn, plaladdwyr a chlefydau gan ddefnyddio technegau amaethyddiaeth a lle bo angen, deunyddiau cymeradwy i reoli plâu a chlefydau
- defnyddio nifer gyfyngedig o gynnyrch a sylweddau cymeradwy lle bo angen wrth brosesu bwyd organig

LANAgM10

Cynllunio, rheoli a monitro gweithrediad a pherfformiad menter organig

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAgM32 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynghorydd Technegol Amaethyddol, Ffermwyr a Thyfwyr, Rheolwyr Fferm a Garddwriaeth, Amaethyddiaeth |
| **Cyfres/Set** | Rheolaeth Amaethyddol |
| **Geiriau Allweddol** | amaethyddiaeth; garddwriaeth; organig; menter; polisïau; cynlluniau |